# Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Awdur:** Sara Peacock, Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Elizabeth Cooper, Dirprwy Bennaeth Gweithrediadau, Is-adran Sgrinio

Sikha de Souza, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd

Rachel Howell, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd

**Dyddiad:** Ebrill 2023 | **Fersiwn:** 0a

**Cyhoeddi/Dosbarthu:**

- Cyhoeddus (Rhyngrwyd)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Y Fewnrwyd)

**Dyddiad Adolygu:** Ebrill 2026

| **Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen**<br>Diben y ddogfen hon yw nodi amcanion a chamau gweithredu a fydd yn cynyddu gallu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnig a chynnal ymgynghoriadau clinigol a gwasanaethau arbenigol rhoi'r gorau i ysmygu yn Gymraeg. Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio mewn ffordd systematig i brif ffrydio cynllunio sgiliau iaith Gymraeg i bob agwedd ar gynllunio a darparu gwasanaethau, ac yn enwedig wrth gynllunio'r gweithlu. Mae'r ddogfen hon yn bodloni gofynion Safon 110 a Safon 110A o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ac yn rhyngwynebu â gweithredu Mwy Na Geiriau a'r Safonau Iechyd a Gofal. |
|---|
| **Cyfeirnod Cynllun Gwaith: Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 Hysbysiad Cydymffurfio** |

## Cynnwys


Cynllun Ymgynghori Clinigol yn Gymraeg Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru .......... 1

1. CYFLWYNIAD .......... 3

1.1. Tîm y Gymraeg .......... 4

2. CYD-DESTUN A RHYNGWYNEB .......... 5

3. CWMPAS Y CYNLLUN .......... 7

3.1 Gweithgareddau allweddol y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg: .......... 7

3.2 Cwmpas y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg hwn .......... 7

3.3 Ein hymgynghoriadau clinigol .......... 7

3.4 Sgrinio .......... 7

3.5 Helpa Fi i Stopio .......... 9

4. ADNODDAU'R CYNLLUN .......... 10

5. GWAELODLIN .......... 11

5.1 Sgrinio .......... 11

5.2 Helpa Fi i Stopio .......... 12

5.3. Rhwystrau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg .......... 13

6. THEMÂU AR GYFER GWEITHREDU YN Y DYFODOL .......... 14

6.1. Technoleg a data .......... 14

6.2 Systemau .......... 14

6.3 Recriwtio ac uwchsgilio .......... 14

7. CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER TWF .......... 16

# 1.CYFLWYNIAD

Ar ôl cael gwybod am ofynion iaith Gymraeg y sefydliad o dan Safonau’r Gymraeg yn ein hysbysiad cydymffurfio yn 2018 (a ddaeth i rym yn 2019), ymgymerodd pob adran o Iechyd Cyhoeddus Cymru â rhaglen waith sylweddol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r rhwymedigaethau hynny. Mae’r rhaglenni wedi cyflawni prosiect sylweddol i sicrhau bod eu gwasanaethau’n cydymffurfio â’r Safonau, gan gynnwys:

- Sicrhau bod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei hanfon yn ddwyieithog, gan gynnwys yr holl lythyrau gwahoddiad a chanlyniadau a thaflenni gwybodaeth i gleifion.
- Sicrhau bod ein hystâd gwe i gyd yn ddwyieithog a bod prosesau ar waith i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu diweddaru ar yr un pryd bob amser.
- Gosod canghennu teleffoni ar rifau ffôn cyswllt er mwyn galluogi galwyr i gael eu cysylltu â thrinwyr galwadau sy’n siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis iaith.
- Hysbysebu swyddi allweddol gyda’r Gymraeg yn Hanfodol wrth recriwtio, a thargedu hysbysebion gyda chefnogaeth Swyddog y Gymraeg a’r tîm Cyfathrebu i gynyddu diddordeb ymhlith ymgeiswyr sy’n siarad Cymraeg.
- Gweithio’n galed i godi ymwybyddiaeth ar draws yr holl staff, nid yn unig o ofynion y ddeddfwriaeth, ond hefyd y rhesymau y tu ôl iddi, fel bod yr holl staff yn cefnogi ac yn hyrwyddo anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy’n siarad Cymraeg.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn falch i fod yn sefydliad dwyieithog ac rydym am gefnogi ein staff i ddathlu’r Gymraeg a’i diwylliant drwy bopeth a wnawn. Bydd y targedau o fewn y cynllun yma i godi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg, i ddatblygu sgiliau staff ac i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol, yn gwreiddio’r Gymraeg ymhellach yn niwylliant ein sefydliad.

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu gwaith caled ac ymrwymiad y gwasanaethau i wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith yn gallu cael mynediad cyfartal at ein gwasanaethau.

Nid yw'r Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol hwn yn ymwneud â materion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Safonau (megis sicrhau gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu ohebiaeth yn Gymraeg), ond yn hytrach sut y gallwn geisio cynyddu argaeledd a hygyrchedd staff clinigol sy'n gallu siarad Cymraeg a all ddarparu ymgynghoriad i ddefnyddwyr gwasanaeth yn yr iaith honno.

Mae'r cynllun ymgynghoriadau clinigol hwn yn manylu ar y camau y bydd prif ddarparwyr ymgynghoriadau clinigol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i'w cymryd er mwyn gwella ymhellach eu harlwy Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd allbwn timau llai a all gynnig ymgynghoriadau clinigol o bryd i'w gilydd yn bwydo i mewn i'r adroddiad diweddaru.

## 1.1. Tîm y Gymraeg

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dîm y Gymraeg, sy'n rhoi arweiniad a chymorth i staff ar ddeddfwriaeth iaith Gymraeg a chyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg y sefydliad. Bydd y cymorth hwn yn ein cynorthwyo ymhellach i fodloni'r targedau isod, ac i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn ffynnu o fewn, a thrwy'r sefydliad. Mae tîm y Gymraeg yn cefnogi trwy:

- Roi cyngor a chymorth ar Safonau'r Gymraeg a sut i'w cymhwyso orau i gyd-destunau timau.
- Creu a diweddaru adnoddau i helpu'r sefydliad i barhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Cyfeirio staff at gyrsiau i helpu i wella eu Cymraeg – beth bynnag yw eu lefel bresennol.
- Cynnal grŵp ar MS Teams ar gyfer dysgwyr a siaradwyr mwy hyderus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n hygyrch i'r holl staff.
- Cynnal Grŵp Dysgwyr – sesiwn/sgwrs anffurfiol wythnosol i helpu staff i wella eu Cymraeg.
- Darparu bathodynnau a chortynnau gwddf Iaith Gwaith i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr hyderus fel ei gilydd i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy ac i'w gwneud yn rhwyddach i gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth adnabod siaradwyr Cymraeg.
- Monitro cynnydd Ymlaen, ein rhwydwaith Cymraeg ar gyfer staff, er mwyn sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr lais cryf o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Gweithio'n agos gyda'r Partneriaid Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddiaethau i sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o brosesau Cynllunio Gweithlu'r sefydliad er mwyn gwella ymhellach y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

## 2.CYD-DESTUN A RHYNGWYNEB

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyletswydd i weithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Tachwedd 2018. Mae hyn yn cynnwys y safonau canlynol:

**Safon 110**

| |
|---|
| Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd gan nodi—<br>(a) i ba raddau yr ydych yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;<br>(b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;<br>(c) amserlen ar gyfer y camau yr ydych wedi rhoi manylion amdanynt yn (b). |

**Safon 110A**

| |
|---|
| Dair blynedd ar ôl cyhoeddi cynllun yn unol â safon 110, ac ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd cynllun, rhaid ichi—<br>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi cydymffurfio â'r cynllun; a<br>(b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw o fewn 6 mis. |

Diffinnir 'ymgynghoriad clinigol' yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 fel a ganlyn:

> Ystyr "ymgynghoriad clinigol" (*"clinical consultation"*) yw rhyngweithio rhwng un neu ragor o unigolion a chorff ynghylch darpariaeth iechyd;
>
> Ystyr "darpariaeth iechyd" (*"health provision"*) yw darparu gwasanaethau iechyd fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol i unigolyn ac mae'n cynnwys asesu, diagnosio neu drin yr unigolyn hwnnw;
> Yn y strategaeth hon, mae'r term "unigolyn" yn cyfeirio at rywun sy'n mynd i ymgynghoriad clinigol yn breifat.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i ymgynghoriadau clinigol, megis recriwtio staff a datblygu sgiliau Cymraeg, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, ymdrin â galwadau ffôn, gohebiaeth, darparu gwasanaethau derbynfa, ffurflenni at ddefnydd unigolion, dogfennau ar gyfer unigolion, a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Nid yw'r rhain yn cael sylw fel rhan o'r cynllun hwn, sy'n canolbwyntio ar yr ymgynghoriad ei hun.

Mae ***Mwy Na Geiriau*** (Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) a **Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG yng Nghymru ddangos eu bod yn cynnig dewis iaith a sicrhau bod ganddynt y sgiliau Cymraeg i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***Cymru Iachach***, yn 2018 i gynnig dull system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol. Un o egwyddorion sylfaenol y bwriad i ysgogi newidiadau mewn gwasanaethau yw: "mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu teilwra i anghenion a dewisiadau unigolion, gan gynnwys yn eu dewis iaith". Cyhoeddwyd y **Strategaeth Gweithlu** sy'n deillio o'r cynllun hwnnw yn 2020, ac yn ogystal â datgan bod "Cefnogi ein gweithlu i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg lle bo angen, yn egwyddor sylfaenol a ddylai fod yn sail i bob rhan o'r strategaeth gweithlu hon", mae'n cynnwys cam gweithredu yn benodol i "Datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol".

Mae **Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022–2025** yn darparu canllawiau ar gryfhau a datblygu cynllunio tymor canolig ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau wrth iddynt gynllunio i wella gwasanaethau. Mae'r fframwaith yn cyfeirio'n benodol at y gofyniad y dylai cyrff ddangos yn eu cynlluniau eu bod yn bodloni gofynion statudol Safonau'r Gymraeg ac yn cynllunio a darparu gwasanaethau yn unol â'r fframwaith *Mwy Na Geiriau*.

Mae canllawiau statudol ar y **Ddyletswydd Ansawdd** yn GIG Cymru yn ei gwneud yn glir bod "rhaid i ystyriaethau'r Gymraeg gael eu gwreiddio yn y Ddyletswydd Ansawdd", ac mae'n alinio'r Ddyletswydd honno gyda'r cynllun *Mwy Na Geiriau*.

Mae **Cynllun Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022–25** yn nodi "Mae angen inni gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a gyrfaoedd dwyieithog wrth i'r galw am wasanaethau Cymraeg gynyddu".

Un o nodau llesiant **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac mae gennym rwymedigaeth statudol i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwn.

**Cymraeg 2050** yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer twf y Gymraeg, gyda'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth erbyn 2050. Mae'r gweithle a gwasanaethau yn ddau faes allweddol yn ail thema'r cynllun hwn, sef "Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg".

# 3.CWMPAS Y CYNLLUN

## 3.1 Gweithgareddau allweddol y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg:

Mae’r Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg yn ymdrin â’r gweithgareddau allweddol canlynol:

- Cynllunio gweithlu dwyieithog, gan gynnwys recriwtio, datblygu sgiliau dwyieithog a hyfforddiant galwedigaethol cyfrwng Cymraeg
- Cynhyrchu gweithdrefnau gweithredu safonol, polisïau a dogfennau allweddol eraill
- Cyfathrebu a hyrwyddo argaeledd ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg
- Cofnodi dewis iaith

## 3.2 Cwmpas y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg hwn

Mae’r Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn Gymraeg yn berthnasol i holl wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru sy’n cynnal ymgynghoriadau clinigol. Y gwasanaethau sydd o fewn cwmpas y cynllun hwn yw:

- Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru
- Bron Brawf Cymru
- Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
- Sgrinio Clyw Babanod Cymru
- Helpa Fi i Stopio

## 3.3 Ein hymgynghoriadau clinigol

## 3.4 Sgrinio

O fewn Sgrinio, mae natur ymgynghoriadau clinigol yn wahanol ar gyfer pob un o'r rhaglenni.

**Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru (WAAASP)**

Mae'r rhaglen yn cyflogi gweithlu o sgrinwyr Ymlediadau Aortig Abdomenol sy'n cynnal ymgynghoriadau clinigol â defnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol. Mae'r sgrinwyr yn cael eu cyflogi gan y rhaglen Sgrinio ac yna'n cael eu hyfforddi'n fewnol. I'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth, rhyngweithiad untro yw hwn. Efallai y bydd angen i rai defnyddwyr

gwasanaeth wedyn siarad ag un o'r nyrsys arbenigol os canfyddir ymlediad sy'n gofyn am weithredu pellach.

**Bron Brawf Cymru**

Mae'r rhaglen yn cyflogi radiograffwyr cymwys i wneud mamogramau ar fenywod cymwys. Gwahoddir cyfranogwyr bob tair blynedd.

Mae yna hefyd Ymarferwyr Cynorthwyol a allai gael eu cyflogi fel rhai sydd eisoes wedi cymhwyso neu a fydd yn dechrau fel hyfforddai ac yna'n dilyn rhaglen hyfforddiant o fewn y rôl.

**Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW)**

Mae’r rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cyflogi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a ffotograffwyr sydd wedi'u hyfforddi o fewn y rhaglen. Ar hyn o bryd, mae pobl cymwys yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio bob blwyddyn o 12 oed neu ddyddiad y diagnosis.

**Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW)**

Mae'r rhaglen yn cyflogi sgrinwyr sydd wedi'u hyfforddi o fewn y rhaglen. Maen nhw'n cynnal y prawf clyw ar fabanod newydd-anedig naill ai mewn ysbyty neu mewn clinig.

**Rhaglenni Sgrinio nad ydynt o fewn y cwmpas**

Sgrinio Cyn Geni Cymru – Yr Is-adran Sgrinio sy’n rheoli’r Rhwydwaith Clinigol a reolir gan Sgrinio Cyn Geni Cymru ond nid yw’n gyfrifol am gyflawni Sgrinio Cyn Geni.

Sgrinio Serfigol Cymru - Mae'r rhyngweithiad clinigol sgrinio serfigol ei hun yn cael ei gyflawni gan staff y tu allan i'r rhaglen, mewn gofal sylfaenol.

Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig – mae’r rhyngweithiad clinigol ar gyfer casglu’r sampl yn cael ei gynnal gan staff bydwreigiaeth a gyflogir gan y byrddau iechyd, y tu allan i’n rhaglen ni.

Sgrinio Coluddion Cymru – cynhelir y prawf sgrinio gan gyfranogwyr yn eu cartrefi eu hunain. Pan fydd prawf positif, mae Ymarferydd Sgrinio Arbenigol yn cysylltu â’r cyfranogwyr ar gyfer y camau nesaf yn y broses – gweithwyr y Bwrdd Iechyd yw’r rhain, er ein bod yn trafod darpariaeth gwasanaeth Cymraeg fel rhan o gyfarfodydd adolygu gwasanaeth.

**Hyfforddiant**

Mae'r tîm hyfforddi yn yr isadran Sgrinio yn rheoli ac yn cyflwyno diploma i sgrinwyr. Mae rhai modiwlau craidd sy’n rhychwantu’r holl raglenni ac mae llawer o’r modiwlau hyn bellach ar gael yn Gymraeg gyda chyfieithiadau wedi’u cynllunio ar gyfer y lleill. Ar hyn o bryd, nid oes gennym aseswr na

Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) sy'n siarad Cymraeg, felly nid ydym yn gallu asesu yn Gymraeg eto. Hyd yma, nid oes unrhyw siaradwr Cymraeg sy’n mynd trwy hyfforddiant sydd wedi cael cynnig astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi manteisio ar y cynnig hwnnw. Byddwn yn parhau i archwilio opsiynau fel y gellir cynnal asesiadau yn Gymraeg yn y dyfodol.

## 3.5 Helpa Fi i Stopio

Helpa Fi i Stopio yw gwasanaeth rhoi’r gorau i ysmygu am ddim GIG Cymru. Mae Helpa Fi i Stopio yn cynnwys yr Hwb Helpa Fi i Stopio Cenedlaethol a’r Gwasanaeth Cymorth dros y Ffôn Cenedlaethol, a reolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau rhoi’r gorau i ysmygu lleol a reolir ac a ddarperir gan saith Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae’r ddogfen hon yn ystyried yr Hwb Cenedlaethol Helpa Fi i Stopio a’r Gwasanaeth Cymorth dros y Ffôn Cenedlaethol yn unig.

Mae’r Hwb Helpa Fi i Stopio Cenedlaethol a’r Gwasanaeth Cymorth dros y Ffôn Cenedlaethol yn cyflogi tîm o Drinwyr Galwadau (5 x 1.0 CALl) a Chynghorwyr Cymorth dros y Ffôn (3 x 0.8 CALl) ochr yn ochr â Rheolwr (1.0 CALl) a dau Oruchwyliwr (2 x 1.0 CALl).

Wedi'u hyfforddi o fewn y rhaglen, mae'r Trinwyr Galwadau yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ysmygwyr sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu GIG Cymru. Maent yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau, delio ag ymholiadau gan y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol a chysylltu â darparwyr gwasanaethau rhoi’r gorau i ysmygu Helpa Fi i Stopio. Mae'r Cynghorwyr Cymorth dros y Ffôn a Goruchwylwyr yn darparu cymorth ymddygiadol arbenigol a chyngor i ysmygwyr ledled Cymru sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu gyda chymorth dros y ffôn.

Yn ogystal â’r rhaglen ymsefydlu a hyfforddiant a ddarperir yn fewnol, mae’n ofynnol i’r holl staff ddilyn rhaglen hyfforddiant ac asesu ar-lein a ddatblygwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Rhoi'r Gorau i Ysmygu (NCSCT).

NCSCT yw’r arweinydd byd cydnabyddedig o ran darparu hyfforddiant mewn rhoi cymorth i roi’r gorau i ysmygu a rhoi chyngor byr iawn ar ysmygu (VBA) effeithiol sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Mae adnoddau NCSCT yn cefnogi ymarferwyr rhoi'r gorau i ysmygu arbenigol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill sy'n dod i gysylltiad ag ysmygwyr. Mae’r NCSCT yn darparu cyfres o wasanaethau ar-lein, rhithwir ac wyneb yn wyneb ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill.

Anogir cwblhau Rhaglen Hyfforddi ac Asesu Cam 1 a Cham 2 ar gyfer yr holl staff sy'n cefnogi ysmygwyr i roi'r gorau iddi ac sy'n rhoi'r wybodaeth

a'r sgiliau craidd i staff ddarparu cymorth ymddygiad effeithiol. Mae modiwlau hyfforddi pellach hefyd ar gael i wella’r cymorth a gynigir i grwpiau poblogaeth ag anghenion ychwanegol megis iechyd meddwl a beichiogrwydd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r adnoddau hyn sydd wedi ei datblygu gan yr NCSCT ar gael yn y Gymraeg.

**Cyfieithu**

Pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn nodi eu bod yn dymuno mynychu eu hymgynghoriadau clinigol gyda ni yn Gymraeg, rydym yn hwyluso hyn yn naturiol gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ble bynnag fo hynny’n bosibl.

Trefnir y mwyafrif o’n hymgynghoriadau clinigol o flaen llaw, ac felly mae modd gwneud trefniadau i baru staff â defnyddwyr gwasanaeth sy’n siarad Cymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid un ai ail drefnu’r apwyntiad at pan fydd siaradwr Cymraeg ar gael, neu gellid cynnig i’r defnyddiwr gwasanaeth fynychu ei hapwyntiad gwreiddiol gyda chyfieithydd ar y pryd yn bresennol (mae’n bosibl y byddant yn gwrthod y cynnig yma fodd bynnag).

Os bydd angen clinigol am wasanaeth Cymraeg yn cael ei adnabod ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth ar ddiwrnod yr apwyntiad neu yn ystod yr apwyntiad (nad oedd wedi'i nodi yn flaenorol) gall staff gael mynediad at gyfieithydd Cymraeg drwy'r ap Language Line, gyda chaniatâd y defnyddwyr gwasanaeth.

# 4. ADNODDAU AR GYFER Y CYNLLUN

Nid oes angen adnoddau ychwanegol sylweddol ar lawer o'r camau gweithredu yn y cynllun a nodir yn adran 7 (er bod angen rhai); maent yn ymwneud mwy ag edrych o'r newydd ar sut yr ydym yn gwneud pethau.

Trwy wneud yn siŵr ein bod yn rhoi ystyriaeth i’r iaith Gymraeg wrth gomisiynu systemau cadw cofnodion newydd fel rhan o’n rhaglen safonol o ddiweddariadau, neu wrth adolygu’r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, gallwn achosi newid heb fynd i gostau ychwanegol. Nid yw’r holl newidiadau yr hoffem eu gweld o fewn rheolaeth ICC – mae rhai yn ddibynnol ar systemau cenedlaethol ac mae eraill angen mewnbwn gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

**Datblygu sgiliau staff**

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol wedi darparu nifer helaeth o gyrsiau Cymraeg yn rhad ac am ddim i sefydliadau ledled Cymru ers 2017 er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithle yng Nghymru. Mae mwyafrif

y cyrsiau ar bob lefel, yn cynnwys y rhai preswyl, yn awr yn rhad ac am ddim.   Cost isel iawn sydd i'r cyrsiau hynny sydd â ffi.

**Cynllun Dysgu Cymraeg i'r sector Iechyd a Gofal**

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyflwyno cyfle i ddatblygu cynllun Dysgu Cymraeg pwrpasol ar gyfer GIG Cymru. Bydd y prosiect yn agored i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru dros gyfnod o 3 blynedd a bydd yn canolbwyntio ar fagu hyder aelodau staff sydd eisoes â sgiliau Cymraeg ond heb yr hyder i'w defnyddio yn y gwaith.

Fel sefydliad, rydym yn gobeithio annog ein staff i gymryd rhan mewn mwy nag un elfen o'r cynllun.  Y diben fydd gweithio gydag aelodau o'r gweithlu sydd â gafael dda ar y Gymraeg ond nad yw'r hyder ganddynt i'w defnyddio yn y gwaith ac wrth ddarparu gofal. Nod y cynllun fydd creu siaradwyr Cymraeg hyderus fel bod staff yn fwy tebygol o ddefnyddio eu Cymraeg i gyfathrebu ag eraill a diwallu anghenion iaith unigolion.

Bydd y cynllun Dysgu Cymraeg i'r sector Iechyd a Gofal yn allweddol i'r rhai o fewn y timau Sgrinio a Helpu Fi I Stopio nad yw'r hyder ganddynt ar hyn o bryd i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith.

**Recriwtio**

Er mwyn denu mwy o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'n rolau, mae angen i ni sicrhau bod ein hysbysebion swyddi a'n disgrifiadau yn cyrraedd pob rhan o'r gymuned Gymraeg.

Gallwn wneud hyn mewn modd cost-effeithiol drwy hysbysebu rolau yn eang ar sianeli recriwtio cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda Phrifysgolion Cymru.  Mae cost yn gysylltiedig â rhai sianeli recriwtio, ond mae'r rhain yn isel. Byddai angen i unrhyw gostau a ysgwyddir ar gyfer hysbysebu rolau ddod allan o gyllidebau'r Gyfarwyddiaeth / Adran.

# 5. GWAELODLIN

## 5.1 Sgrinio

Mae wedi bod yn anodd sefydlu mesuriad gwaelodlin o'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau Cymraeg, oherwydd diffyg dulliau adrodd a chadw cofnodion safonol ar gyfer dewis iaith, a'r aflonyddwch a brofodd ein gwasanaethau Sgrinio yn ystod y pandemig Coronafeirws. Mae sefydlu'r gallu i gofnodi a mesur dewis iaith a darpariaeth gwasanaeth felly yn rhan o'r cynllun ymgynghoriadau clinigol ei hun.

Dangosydd allweddol ar gyfer ymgynghoriadau clinigol fydd **data profiad defnyddwyr gwasanaeth**. Mae data a gasglwyd yn flaenorol wedi bod yn dameidiog ac yn amhendant, felly bydd casglu data'n well yn gam allweddol

ynddo'i hun. Bwriedir lansio arolwg profiad defnyddwyr gwasanaeth newydd ar gyfer yr Is-adran Sgrinio yn chwarter cyntaf 2023–24, a bydd canlyniadau'r flwyddyn gyntaf yn darparu'r gwaelodlin wrth symud ymlaen. Y cwestiwn fydd yn cael ei ofyn yw:

> Oeddech chi'n gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith [Oeddwn/Nac oeddwn]
>
> - [Os oedd:] Beth oedd eich dewis iaith? [Rhestr gwympo gyda'r Gymraeg fel yr opsiwn cyntaf]
> - [Os na:] Rhannwch eich dewis iaith a'r rhesymau pam nad oeddem yn gallu bodloni eich cais

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw **ffordd systematig ar draws y gwasanaeth o fesur** faint o bobl (a) a ofynnodd am ymgynghoriad yn Gymraeg mewn ymateb i'r cynnig rhagweithiol, a (b) a gafodd eu paru wedi hynny â chlinig a oedd yn gallu cynnal yr ymgynghoriad yn Gymraeg. Mae angen ymgorffori systemau rhaglen-benodol sy'n gallu mesur hyn yn y cynllun er mwyn cynllunio ar gyfer twf.

Yn ddaearyddol, gellir cael dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd o Gymru o ystadegau Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r Cyfrifiad ac arolygon poblogaeth eraill. Ar lefel fwy gronynnog, cynhwysir proffiliau ieithyddol ar gyfer clystyrau meddygon teulu unigol ymhlith y ffactorau ffordd o fyw a chymdeithasol a adroddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu Proffiliau Poblogaeth Ymarfer Cyffredinol.

Ar draws y rhaglenni, mae'r gwaelodlin o ran sgiliau Cymraeg staff clinigol rheng flaen fel a ganlyn:

| Rhaglen | Nifer y Sgrinwyr | Nifer y Sgrinwyr sy'n Siarad Cymraeg |
|---|---|---|
| Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru | 23 | 7 |
| Bron Brawf Cymru | 87 | 12 |
| Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru | 67 | 12 |
| Sgrinio Clyw Babanod Cymru | 38 | 10 |

## 5.2 Helpa Fi i Stopio

Mae system rheoli cleientiaid bresennol Helpa Fi I Stopio (a'r System Gweinyddu Cleifion (PAS) newydd arfaethedig sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd) yn gallu cofnodi dewis iaith unigolyn ac mae'r cwestiwn hwn yn orfodol wrth gofrestru cleient â'r gwasanaeth. Yn 2022/23, roedd gan 2% ddewis iaith heblaw Saesneg, a Chymraeg oedd y dewis iaith mwyaf cyffredin heblaw Saesneg.

Fel gwasanaeth, ein nod yw sicrhau bod Trinwyr Galwadau Cymraeg eu hiaith ar gael bob amser i hwyluso ymholiadau a chofrestru â’r gwasanaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall absenoldebau annisgwyl gael effaith ar y gwasanaeth hwn a byddwn yn ceisio meithrin capasiti a gwydnwch yn y dyfodol.

Drwy gynllunio'r gweithlu a defnyddio'r Ffurflen Recriwtio Iaith Gymraeg rydym wedi nodi bwlch o fewn ein tîm o Gynghorwyr Cymorth dros y Ffôn (CCFf) ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Rydym bellach wedi penodi'n llwyddiannus i'r swydd hon gyda'r aelod o staff erbyn hyn yn darparu cefnogaeth ymddygiadol ddwyieithog i'r rhai sy'n rhoi'r gorau i ysmygu. Mae gennym hefyd fynediad at rwydwaith o wasanaethau lleol i gefnogi unrhyw geisiadau Cymraeg ac mae gennym hefyd fynediad at wasanaethau dehongli os oes angen capasiti ychwanegol.

Ar draws y Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio presennol a’i rheolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae’r gwaelodlin o ran sgiliau Cymraeg ar gyfer y grŵp staff presennol fel a ganlyn:

| **Swydd** | **Cyfanswm y Staff*** | **Nifer y Siaradwyr Cymraeg** |
|---|---|---|
| Triniwr Galwadau | 5 | 2 |
| Cynghorydd Cymorth dros y Ffôn | 3 | 1 |
| Goruchwyliwr | 2 | 0 |
| Rheolwr | 1 | 0 |

*Cyfanswm nifer y staff pan fydd y gwasanaeth yn gweithredu’n llawn.

## 5.3. Rhwystrau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg

Ymhlith y rhwystrau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg sydd wedi’u nodi ar draws y ddau faes clinigol mae:

- Heriau wrth **recriwtio** siaradwyr Cymraeg a staff arbenigol; mae hyn yn anoddach o lawer wrth geisio recriwtio staff sydd â hyfforddiant meddygol neu newid ymddygiad priodol sydd hefyd â digon o ruglder yn y Gymraeg
- **Bylchau hyder** ymhlith staff presennol sy’n siarad Cymraeg wrth drafod materion meddygol, rhoi cymorth ymddygiad a chyngor ar roi’r gorau i ysmygu.
- **(Sgrinio yn unig) Nodi** dewis iaith wrth sgrinio (nid yw'n cael ei gasglu a'i storio'n rheolaidd gyda chofnodion cenedlaethol cleifion),

a'r anhawster dilynol o ddyrannu'r rhai sydd angen gwasanaeth Cymraeg i glinigau lle gellir darparu hynny.

# 6. THEMÂU AR GYFER GWEITHREDU YN Y DYFODOL

## 6.1. Technoleg a data

Mae angen i'r dechnoleg a ddefnyddiwn o fewn ein gwasanaethau ein galluogi i gasglu dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth yn hawdd mewn ffordd sy'n gyson ar draws ein gwasanaethau ac yn hawdd ei throsglwyddo i rannau eraill o'r GIG (fel meddygon teulu a Byrddau Iechyd). Nid yn unig y bydd hyn yn hwyluso gwasanaeth Cymraeg, i ni ac i'r cyrff eraill ar hyd taith y defnyddiwr gwasanaeth hwnnw, drwy ganiatáu inni wybod dewis iaith cyn yr ymgynghoriad cyntaf, bydd hefyd yn ein galluogi i gasglu data i fesur y galw a llywio twf yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

## 6.2 Systemau

Gall unrhyw bwynt ar hyd taith y defnyddiwr gwasanaeth olygu bod yn rhaid iddynt wneud cais arbennig, neu wneud rhywbeth yn wahanol i rywun sy'n disgwyl gwasanaeth Saesneg yn ddiofyn, gael ei ddisgrifio fel "cost ffrithiant" sy'n creu rhwystr i wasanaeth Cymraeg. Ar y pwyntiau hyn mae pobl yn rhoi'r ffidl yn y to ac yn dychwelyd i'r gwasanaeth Saesneg diofyn.

Gall craffu a diwygio ein systemau nodi gael gwared ar y costau ffrithiant hyn, gan alluogi siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaeth tecach. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth adlinio ei adnoddau mewn modd sy'n caniatáu iddo ddarparu'r gwasanaeth Cymraeg mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Er y byddwn yn craffu ar y systemau sydd o dan ein rheolaeth i'w diweddaru, rydym hefyd yn ddibynnol ar systemau cenedlaethol eraill. Byddwn yn gweithio gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddiweddaru'r systemau hyn i sicrhau eu bod yn addas i'n hanghenion.

## 6.3 Recriwtio a datblygu sgiliau

Er mwyn cyrraedd siaradwyr Cymraeg yn y farchnad swyddi yng Nghymru, mae angen i recriwtio gael ei dargedu a'i farchnata'n iawn, gan fod y sgiliau hyn yn brin a'r farchnad yn gystadleuol iawn. Bydd y rhan fwyaf os nad pob swydd cymorth ymddygiad clinigol neu arbenigol yn cael eu hysbysebu fel rhai gyda "Cymraeg yn ddymunol".

Ar gyfer ein swyddi cymorth ymddygiad arbenigol neu glinigol, mae angen i ni fod yn ymwybodol ein bod yn tynnu o gronfa fach o ymgeiswyr yn aml,

felly gallai hysbysebu swydd gyda'r Gymraeg yn Hanfodol fod yn rhy gyfyngus, gan gael effaith glinigol os na fyddwn yn llwyddo i recriwtio mewn modd amserol.  Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod y rhain yn cael eu hyrwyddo'n frwd tuag at y boblogaeth Gymraeg ei hiaith. Mae ymadroddion mewn hysbysebion megis "Oherwydd cyfansoddiad presennol ein tîm rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl â sgiliau Cymraeg [a pha bynnag fylchau eraill sy'n bodoli]" yn nodi bod y recriwtwyr yn cymryd anghenion y Gymraeg o ddifrif, ac yn ystyried y Gymraeg fel sgil ac nid rhinwedd bersonol.

Mae gan y tîm Adnoddau a thîm y Gymraeg gefnogaeth a chyngor ar gyfer marchnata'r swyddi gwag hynny sydd angen sgiliau Cymraeg, (mae'r adnoddau a'r gyllideb ar gyfer pob swydd yn eistedd gyda'r cyfarwyddiaethau unigol).   Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r ateb yw recriwtio. Rhaid inni hefyd ystyried y sgiliau sydd eisoes yn bodoli o fewn ein gweithlu ac archwilio a oes siaradwyr Cymraeg y gellid gwella eu sgiliau clinigol, neu glinigwyr a allai feithrin y sgiliau ieithyddol angenrheidiol. Mae dysgu iaith "o'r dechrau" yn dasg sylweddol sy'n gofyn am ymrwymiad amser rheolaidd dros nifer o flynyddoedd, felly nid yw'n ymateb ymarferol iawn i'r mater hwn. Byddai'n fwy realistig i adnabod y staff hynny sydd â sylfaen dda yn yr iaith yn barod, neu hyd yn oed sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl ond ddim yn hyderus i defnyddio'r iaith mewn amgylchedd gwaith, a thargedu cefnogaeth iddynt.

Strategaeth arall yw edrych ar lwybrau hyfforddi presennol a nodi pa rai o'r rhain sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yna buddsoddi mewn cyfleoedd "dysgu yn y gwaith" megis prentisiaethau os yn briodol.

# 7. CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER TWF

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y timau hynny sydd â chyswllt wyneb yn wyneb a/neu dros y ffôn â defnyddwyr gwasanaeth (yn hytrach na'r rhai hynny lle mae cyswllt drwy'r post), ac ar y staff penodol yn y timau hynny sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw.

## Technoleg a data

| Cam Gweithredu | Canlyniad | Dibyniaethau | Personél allweddol | Targedau carreg filltir | Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sgrinio:** Archwilio ceisiadau am apwyntiadau yn Gymraeg, gan edrych yn ôl rhaglen a daearyddiaeth, ac edrych ar faint o'r rheini sy'n cael eu paru'n llwyddiannus â chlinig sy'n cynnwys gwasanaeth Cymraeg. | Data cadarn ar ddewis iaith ar gael i alluogi gwasanaethau i gynllunio darpariaeth a gweithlu yn well. | Datblygu systemau TG newydd a chasglu data yn systematig mewn ffordd y gellir ei harchwilio | Gwasanaethau digidol<br>Staff gweinyddol llwybr rhaglen | Blwyddyn 1: Cwmpasu'r broses sydd ei hangen i allu casglu data ar geisiadau a darpariaeth o apwyntiadau Cymraeg. (Bydd hyn trwy broses â llaw)<br><br>Blwyddyn 2**:** Gweithredu proses i gasglu data ar geisiadau a'r ddarpariaeth o apwyntiadau Cymraeg | Blwyddyn 2 |
| **Sgrinio:** Maes dewis iaith i'w gynnwys mewn systemau cofnodion sgrinio newydd. | Dewis iaith yn rhan o wybodaeth bersonol safonol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth cymwys, er mwyn galluogi cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg. | Datblygu systemau newydd<br><br>Gwaith Darganfod sgrinio TG/digidol | Gwasanaethau digidol | Blwyddyn 1: Cwmpasu sut y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith i gynnwys maes dewis iaith mewn systemau TG sgrinio<br><br>Cynnwys yr angen i gofnodi dewis iaith fel rhan o waith Darganfod sgrinio<br><br>Blwyddyn 5: Cynhyrchu cynllun manwl ar sut y byddwn yn gwneud y newidiadau sydd eu | Blwyddyn 5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hangen i systemau TG sgrinio er mwyn gallu cofnodi dewis iaith. | |

## Systemau

| Cam Gweithredu | Canlyniad | Dibyniaethau | Personél allweddol | Targedau carreg filltir | Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Helpa Fi i Stopio:** cryfhau ein Cynnig Rhagweithiol cyn cyfeirio (e.e. cryfhau testun ar y wefan; Blwch Dewis Iaith o fewn ffurflen hunangyfeirio). | Cleientiaid yn gallu rhoi gwybod i'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio wrth gael eu hatgyfeirio, bod angen gwasanaeth Cymraeg arnynt, er mwyn galluogi dyrannu adnoddau priodol. | | | Blwyddyn 1: Cwblhau gwerthusiad o'r cynnig rhagweithiol presennol a nodi meysydd i'w cryfhau<br><br>Cofnodi a monitro ceisiadau am ddarpariaeth Gwasanaeth Cymraeg | Blwyddyn 1 |
| **Sgrinio:** Rhaglenni i werthuso cyfathrebu gyda chyfranogwyr cyn iddynt gael eu sgrinio.<br><br>Bydd hyn yn nodi llwybrau i alluogi'r cynnig rhagweithiol cyn | Gall Defnyddwyr Gwasanaeth roi gwybod i'r rhaglenni sgrinio y bydd angen gwasanaeth Cymraeg arnynt ymlaen llaw, er | | | Blwyddyn 1: Archwilio llythyrau gwahoddiad i sgrinio a gwefannau i sefydlu gwaelodlin y ddarpariaeth Cynnig Rhagweithiol ar y pwynt gwahodd | Blwyddyn 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| apwyntiadau (e.e. cryfhau testun ar y wefan; addasu testun ar lythyrau gwahoddiad). | mwyn trefnu i staff addas fod ar y rota, neu alluogi dyraniad i glinigau penodol. | | | Blwyddyn 2: Datblygu cynllun i symud tuag at gydymffurfio ar gyfer yr holl raglenni sydd o fewn y cwmpas<br><br>Blwyddyn 3: Cwblhau archwiliad pellach i sefydlu cydymffurfiad | |
| **Sgrinio:** Rhaglenni i gryfhau eu gweithdrefnau safonol ynghylch eglurder i ddefnyddwyr gwasanaeth ar y rhyngwyneb/rhyngweithiad gyda Byrddau Iechyd (rheoli disgwyliadau) a throsglwyddo dewis iaith sydd eisoes wedi'i gasglu. | Defnyddwyr Gwasanaeth yn ymwybodol o'r hyn sydd o fewn rheolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a'r hyn nad yw o fewn rheolaeth ICC, a bod gwasanaethau ICC yn chwarae eu rhan yn weithredol i sicrhau taith integredig drwy'r system o ran dewis iaith. | Systemau TG i gofnodi dewis iaith<br><br>Trafod â Byrddau Iechyd ynghylch derbyn atgyfeiriadau gan gynnwys dewis iaith ac ymrwymiad i weithredu<br><br>Systemau y tu allan i'n rheolaeth gan gynnwys y rhai a reolir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Cydlynwyr rhaglen sy'n atgyfeirio<br><br>Staff byrddau iechyd sy'n derbyn atgyfeiriadau | Blwyddyn 1: Sefydlu gwaelodlin ar gyfer sut a phryd rydym yn cyfathrebu dewis iaith gyda phartneriaid ar gam nesaf y llwybr<br><br>Blwyddyn 2: Cynhyrchu cynllun ac edrych ar brosesau sydd eu hangen i wella'r llinell sylfaen gan 50%<br><br>Blwyddyn 5: Cael prosesau ar waith gyda'r holl bartneriaid ar ddiwedd y llwybr sgrinio i gynnwys dewis iaith gydag atgyfeiriadau | Blwyddyn 5 |
| **Sgrinio:** Data Profiadau Defnyddwyr Gwasanaeth (SUE) ynghylch dewis iaith i gael ei fonitro'n rheolaidd, a'r gallu i gynnal ymgynghoriad | | | Lansio arolwg Profiadau Defnyddwyr Gwasanaeth newydd | Blwyddyn 1: Sefydlu gwaelodlin o ran a yw defnyddwyr gwasanaeth yn adrodd eu bod yn gallu cael mynediad at ymgynghoriadau yn Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny. | Blwyddyn 5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| clinigol yn Gymraeg pan fydd cais am hynny. | | | | Blwyddyn 3: Gwelliant o 5% ar waelodlin 2023/24.<br>Blwyddyn 5: Gwelliant o 10% ar waelodlin 2023/24. | |

## Recriwtio ac uwchsgilio

| Cam Gweithredu | Canlyniad | Dibyniaethau | Personél allweddol | Targedau carreg filltir | Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Helpa Fi i Stopio:** Gweithio gyda NCSCT i hwyluso argaeledd hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. | Cynnydd yn nifer y cynghorwyr sy'n hyderus i gynnig cymorth a chyngor ymddygiad arbenigol yn Gymraeg<br><br>Gallai hyn gael ei gwblhau ar sail Unwaith i Gymru er mwyn bod o fudd i ddarparwyr gwasanaethau Helpa Fi i Stopio eraill hefyd. | | Tîm Rheoli Tybaco Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>NCSCT | Blwyddyn 1: ymgysylltu â'r NCSCT i gwmpasu'r gofynion adnoddau tebygol ar gyfer darparu deunyddiau hyfforddi Cymraeg<br><br>Blwyddyn 3: Datblygu gwerthusiad opsiynau ar gyfer datblygu adnoddau | Blwyddyn 1 |
| **Sgrinio a Helpa Fi i Stopio:** Ceisio cefnogaeth gan yr Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol i amlygu a thargedu hysbysebion swyddi gyda'r Gymraeg yn hanfodol i gymunedau Cymraeg eu hiaith. | Pob swydd gyda'r Gymraeg yn hanfodol yn cael ei hysbysebu gyda phroffil amlwg iawn o fewn y cyfryngau Cymraeg (e.e. Yr Awr Gymraeg; Mentrau Iaith). | | Tîm y Gymraeg; Tîm Recriwtio; Grŵp y Gymraeg | Blwyddyn 1: defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu 100% o swyddi gyda'r Gymraeg yn hanfodol drwy sicrhau bod yr holl hysbysebion ar gyfer swyddi gyda'r Gymraeg yn hanfodol yn cael eu hanfon at dîm y Gymraeg i'w rhannu drwy sianeli priodol | Blwyddyn 1 |
| **Sgrinio a Helpa Fi i Stopio:** Nodi staff allweddol sydd â sgiliau | Staff sy'n siarad Cymraeg mewn rolau allweddol wedi'u grymuso ac yn teimlo'n | Capasiti o fewn yr Is-adran Pobl a Datblygu | Tîm y Gymraeg ; grŵp mentoriaid | Blwyddyn 1: ymgysylltu â staff clinigol sy'n siarad Cymraeg i | Blwyddyn 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ond sydd ddim yn teimlo'n hyderus a chysylltu â'r Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol i ddarparu cefnogaeth un i un. | hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith. | Sefydliadol i gynnig cymorth 1:1 i staff allweddol Cyllideb | Cymraeg 1:1; rheolwyr gwasanaethau rheng flaen | sefydlu eu hanghenion a'r ffyrdd gorau o ddarparu cymorth<br><br>Blwyddyn 3: gweithredu'r cynnig fel y'i diffinnir ar ddiwedd blwyddyn 1 | |
| **Tîm y Gymraeg:** Datblygu a rhaeadru canllawiau cymorth iaith Gymraeg ar yr Hwb a'u datblygu lle bo angen. | Staff yn ymwybodol o'r offer sydd ar gael i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ac yn cael mynediad atynt. | | Tîm y Gymraeg, Grŵp y Gymraeg | Blwyddyn 1: Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i staff gan 10% i'r gwaelodlin presennol | Blwyddyn 1 |
| **Helpa Fi i Stopio:** Yr Hwb Helpa Fi i Stopio i archwilio rotâu cyfredol a nodi unrhyw sifftiau rheolaidd sydd heb ddarpariaeth Iaith Gymraeg. | Data gwaelodlin ar gyfer darpariaeth gwasanaeth Cymraeg a nodi meysydd i'w gwella. | | | Blwyddyn 1: Llunio rotâu sy'n sicrhau bod gan 100% o sifftiau driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg<br><br>Adolygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i sicrhau bod pob cleient sy'n gofyn am gymorth yn Gymraeg yn cael ei neilltuo i Gynghorydd Cymorth dros y Ffôn priodol | Blwyddyn 1 |
| **Helpa Fi i Stopio:** Sefydlu defnydd cyson o ffurflen Gofyniad Iaith Gymraeg ar gyfer yr holl recriwtio i benderfynu a ddylai swyddi nodi fod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. | Cynyddu nifer y staff clinigol sy'n gallu siarad Cymraeg. | | | Blwyddyn 1: Y ffurflen recriwtio Cymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson a nifer y swyddi gyda'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol yn cael eu monitro | Blwyddyn 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm y Gymraeg:** Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith wedi'u targedu ar gyfer adrannau sy'n darparu gwasanaethau ymddygiad neu glinigol arbenigol, lle bo angen, i godi ymwybyddiaeth o'r angen am y Gymraeg. | Datblygu gwybodaeth staff ar sail egwyddorion y safonau'n gyffredinol, cefndir y cynllun ymgynghoriadau clinigol, cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r pynciau hyn. | Gwybodaeth i'w rhaeadru ledled y sefydliad. | Tîm yr Iaith Gymraeg, staff sy'n cynnal ymgynghoriadau ymddygiad neu glinigol arbenigol | Blwyddyn 1: rhannu dolenni i adnoddau craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar yr Hwb Cymraeg<br><br>Blwyddyn 3: datblygu pecyn hyfforddi yn benodol ar gyfer staff clinigol | Blwyddyn 3 |
| **Sgrinio a Helpa Fi i Stopio:** Gweithio gyda Thîm y Gymraeg, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i sicrhau bod ein staff yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu Cymraeg ledled GIG Cymru. | Datblygu sgiliau staff ar hyd y matrics sgiliau Cymraeg i loywi eu Cymraeg. | Gwybodaeth yn cael ei ddarparu | Tîm yr Iaith Gymraeg, staff sy'n cynnal ymgynghoriadau ymddygiad neu glinigol arbenigol<br><br>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Blwyddyn 1: sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r matrics sgiliau iaith ar y Cofnod Staff Electronig<br><br>Blwyddyn 3: darparu hyfforddiant Cymraeg sy'n bodloni anghenion staff ag ymrwymiadau clinigol o ran hygyrchedd yn ogystal â chynnwys | Blwyddyn 3 |
| **Sgrinio:** Sefydlu rhwydwaith o staff clinigol Cymraeg eu hiaith i alluogi cyd-gefnogaeth a dysgu. | Staff clinigol sy'n siarad Cymraeg (ac sy'n dysgu) gyda mynediad hawdd at ei gilydd ar gyfer rhannu syniadau, gwybodaeth a therminoleg allweddol, ac ar gyfer cyd-gefnogaeth a mentora. | Sianel Teams newydd a system cyfeillio. Hyrwyddo Ymlaen, y rhwydwaith Cymraeg i staff, ymhlith staff clinigol. | Tîm yr Iaith Gymraeg | Blwyddyn 1: Ymlaen, y rhwydwaith Cymraeg i staff yn cael ei hyrwyddo i'r holl staff clinigol.<br><br>Ymgysylltu â staff clinigol trwy Ymlaen, y rhwydwaith Cymraeg i staff i sefydlu'r angen am rwydwaith clinigol | Blwyddyn 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Blwyddyn 3: sefydlu rhwydwaith clinigol. Adborth gan aelodau ynghylch a yw'n diwallu eu hanghenion | |
| **Sgrinio:** Defnyddio’r broses cynllunio gweithlu i nodi proffil ieithyddol bylchau sgiliau yn y dyfodol.<br>Pob rhaglen i fapio a chofnodi lefelau sgiliau Cymraeg staff clinigol allweddol. | Anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion clinigol yn ystod y broses cynllunio gweithlu.<br><br>Y nod yw cynyddu nifer y staff sy'n gymwys ac yn hyderus i gyflwyno ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. | | Yr Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Arweinydd cynllunio'r gweithlu; Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol | Blwyddyn 1: pob rhaglen i fapio a chofnodi lefelau sgiliau Cymraeg staff clinigol allweddol gan gynnwys gwaelodlin o staff clinigol cymwys a hyderus mewn rolau allweddol<br><br>Blwyddyn 3: Cynnydd o 10% ar waelodlin 2023/24 mewn staff cymwys a hyderus ym mhob rhaglen.<br><br>Blwyddyn 5: Cynnydd o 20% mewn siaradwyr Cymraeg cymwys a hyderus o’i gymharu â gwaelodlin 2023/24 ym mhob rhaglen. | Blwyddyn 5 |
| **Helpa Fi i Stopio**: Defnyddio’r broses cynllunio gweithlu i nodi proffil ieithyddol bylchau sgiliau yn y dyfodol.<br>Cynnal gwerthusiad opsiynau i gynyddu capasiti a gwydnwch gwasanaeth o ran | Anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag anghenion clinigol yn ystod y broses cynllunio gweithlu.<br><br>Cynyddu capasiti’r Hwb Helpa Fi i Stopio i ddarparu’r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | Blwyddyn 1: pob rhaglen i fapio a chofnodi lefelau sgiliau Cymraeg staff clinigol allweddol gan gynnwys gwaelodlin o staff clinigol cymwys a hyderus mewn rolau allweddol | Blwyddyn 5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| darparu gwasanaethau Cymraeg | | | | Blwyddyn 5: Cynnydd o 10% mewn siaradwyr Cymraeg cymwys a hyderus o'i gymharu â gwaelodlin 2023/24 ym mhob rhaglen. | |